

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 28 Tachwedd 2023 am 7:00 yr hwyr.

Presennol

John Brinley Jones (C)

Hywel James Sinclair Evans, Gwenllian Davenport Hughes, Greta Hughes

William Roger Jones, Ian Goronwy Williams, Alan Harper-Smith

Thomas Victor Jones, Ann Llwyd (Cyfieithydd) Carys Jones (Clerc)

1. Ymddiheuriadau

David Andrew Parry

2. Datgan Buddiant

Dim

3. Derbyn Cofnodion Cyfarfod 28 Hydref 2023

Cynnig: Thomas Victor Jones

Eilydd: William Roger Jones

4. Unrhyw Fater Brys

Seddi Gwag

Nodwyd fod dwy sedd wag ar Gyngor ar hyn o bryd. Adroddodd y clerc ei bod wedi cael sgwrs hefo Mr Twrog Jones ond yn anffodus, nid yw Mr Jones yn gallu ymrwymo i'r gwaith fel cynghorydd cymuned oherwydd ymrwymadau eraill. Mae'r hysbyseb ar wefan y Cyngor Cymuned. Adroddodd y cadeirydd fod Mr Kevin Wheatley wedi mynegi diddordeb ac wedi anfon manylion ar e-bost.

Cynnig: Alan Harper-Smith

Eilio: Greta Hughes

5 o blaid

2 wedi atal eu pleidlais

Cynigwyd fod y clerc yn anfon e-bost at Mr Wheatley i'w wahodd i'r cyfarfod nesaf er mwyn cael cadarnhad ei fod yn derbyn y swydd.

Felly mae un sedd wag. Awgrymwyd efallai y byddai gan Mr Keith Williams ddiddordeb?

Cytunodd Ian Goronwy Williams i gael sgwrs hefo Mr Williams.

Lôn Pin Solar

Dim gwybodaeth bellach wedi dod i law.

Cabinet

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod y cabinet newydd wedi cyrraedd. Bydd angen trefnu amser i sortio drwy'r ffeiliau a gwaith papur. Cafwyd trafodaeth hefyd ynglŷn â'r lleoliad gorau ar gyfer y cabinet newydd.

Anaf Personol

Derbyn fel gwybodaeth.

5. Llwybrau

Adroddodd y Cadeirydd fod anfoneb wedi cael ei dderbyn gan Mr Rhys Jones am dorri gwair a strimio'r cae chwarae a llecyn y pentref. Cost o £125 am dorri'r gwair yn y cae chwarae.

Derbyn fel gwybodaeth.

Awgrymodd Thomas Victor Jones fod angen i'r holl lwybrau gael eu cofnodi yn y tendr newydd. Awgrymodd ymhellach fod torri'r llwybrau dechrau Gorffennaf yn rhy hwyr. Dylai hyn ddigwydd yn gynt yn y flwyddyn, o leiaf fis yn gynt.

Pengamfa i Neuadd yr Eglwys - ymddengys nad oes neb yn torri'r ardal yma.

Mae Ty'n Pwll angen cael ei dorri hefyd.

Adroddodd y cadeirydd fod Mr Rodger Fisher wedi gwneud gwaith yn Nhy'n Pwll.

Mae angen ychwanegu Llwybr Nant yn y tendr newydd hefyd.

Cytunwyd yn unfrydol y byddai'n ddefnyddiol i fynd trwy'r rhestr o'r llwybrau a'i diweddarau, ac yna gwneud map cynhwysfawr.

Derbyn fel gwybodaeth.

Awgrymwyd rhoi hysbyseb yn Llanw Llŷn fel y tro diwethaf. Bydd angen gwneud hyn yn y dyddiau nesaf os am gael ei gynnwys yn y rhif yn nesaf.

Ychwanegodd Greta Hughes y dylid cynnwys glanhau'r afon yn y tendr newydd.

Holodd Hywel James Sinclair Evans tybed oes perygl o golli rhai o'r llwybrau?

Nododd Thomas Victor Jones y byddai'n synhwyrol i dorri'r llwybrau sy'n cael eu defnyddio.

Awgrymodd Hywel James Sinclair Evans fod ambell lwybr yn cael ei glirio er mwyn i'r cyhoedd fedru eu defnyddio ee Twmpath Cerrig ac efallai holi am enwau rhai o'r llwybrau.

Cytunodd y Cadeirydd i anfon map i'r aelodau.

Adroddodd Ian Goronwy Williams fod ardal Maes Parcio Cildwrn wedi cael ei dorri a bod gweithwyr Cyngor Gwynedd wedi bod yn clirio.

6. Y Fynwent Newydd

Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi cael cyfarfod byr hefo Glyn o'r Adran Gynllunio yn y Fynwent a'i bod yn edrych yn addawol y bydd y cais yn cael ei basio. Ond mae'r Bwrdd Dŵr yn bryderus am y beipen yno. Ni chaniateir claddu o fewn tair medr i'r beipen. Mae cais wedi cael ei gyflwyno dwy flynedd yn ôl. Gobeithio y bydd y cais yn llwyddiannus y tro yma. Roedd Glyn yn cytuno nad oedd yn deg i'r Cyngor Cymuned dalu i'r Bwrdd Dŵr i ddod o hyd i'w asedau eu hunain. Yn y cyfamser, cytunodd y Cadeirydd i wneud ymholiadau am Gae Bryn Gro fel lleoliad posib ar gyfer y Fynwent Newydd.

Derbyn fel gwybodaeth ac aros i dderbyn gwybodaeth gan yr Adran Gynllunio.

7. Cae Chwarae

Holodd Hywel James Sinclair Williams os oedd gan y Cadeirydd gopi o'r gweithredoedd. Holodd ymhellach os oedd y tir wedi ei gofrestru? Cafwyd sgwrs am "skate park", ei addasrwydd a pha mor hir fyddai'n bosibl gwneud defnydd o adnodd fel hyn. Cafwyd trafodaeth hefyd am adnoddau eraill posib: cwrt pêl fased, goliau, trwsio'r sied, gofod blodau gwyllt a chamera cylch cyfyng fyddai'n rhedeg ei hun gyd golau solar. Bydd angen hefyd codi ffens o amgylch y Cae Chwarae. Bydd hyn yn ddurd. Amcangyfrif o'r gost yn ôl Hywel James Sinclair Williams yw £35,000. Nododd ymhellach ei fod yn gobeithio y bydd yr Ysgol Gynradd ar Ysgol Feithrin yn gallu gwneud defnydd addysgol o'r Cae Chwarae. Cyn dechrau'r gwaith, bydd yn rhaid cael cyngor am y coed cyfagos.

Dyddiadau pwysig:

12fed o Ragfyr: Noson Garolau (i godi arian tuag at y Cae Chwarae)

28ain o Ionawr: Dyddiad dechrau clirio.

Holodd Greta Hughes os oedd asesiad risg wedi cael ei wneud ar gyfer y gwirfoddolwyr?

Atebodd Hywel James Sinclair Williams fod copi o asesiad y Cyngor ar ei ffordd.

Gofynnodd Greta Hughes os byddai'n bosibl cael offer yn y cyfamser i blant bach lleol gael chwarae? Awgrymodd Ian Goronwy Williams y byddai'n syniad holi cwmni G. L. Jones am y posibilrwydd o gael offer y byddai'n bosib ei ail-leoli/ defnyddio eto. Nododd hefyd ei bod yn bwysig cael matiau meddal addas ar y llawr.

8. Neuadd y Pentref

Ar ôl derbyn dau amcan bris arall bydd angen edrych ar y polisi yswiriant. Adroddodd Gwenllian Davenport Hughes nad oedd hi wedi derbyn ymateb/ amcan bris gan y cwmnïau mae hi wedi cysylltu â nhw. O ganlyniad, dim ond un amcan bris wedi cael ei dderbyn i wneud y gwaith am swm o £25,500. Adroddodd Ian Goronwy Williams na ellir defnyddio'r toiled ar hyn o bryd, gan nad oes digon o ddŵr yn mynd trwy'r beipen. Ymhellach fod amcan bris o £1,000 + TAW am drwsio peipen toiledau'r dynion a merched. Dywedodd Gwenllian Davenport Hughes ei bod wedi cysylltu hefo'r cwmni yswiriant ond yn anffodus, gwrthododd y cwmni arianu'r gwaith oherwydd ei fod yn nam hanesyddol. O ganlyniad, mae hi wedi bod yn gwneud ymholiadau am y posibilrwydd o gael grant i dalu am y gwaith.

Nododd y Cadeirydd fod angen cysylltu hefo'r Clwb Snwcer oherwydd bod hen gadeiriau metel yno, sydd angen eu gwaredu. Awgrymwyd cysylltu hefo'r rheolwr, gan nad yw'r cadeiriau yn cael eu defnyddio a thafu'r rhai gwaethaf. Mae angen edrych ar y drws tân hefyd, oherwydd bod bwllch o dan y drws. Dywedodd y Cadeirydd fod y dreiniau angen sylw. Adroddodd ymhellach ei fod wedi archebu coeden Nadolig (tua pymtheg troedfedd) a'i bod yn cyrraedd dydd Gwener. Gobeithio y bydd gwirfoddolwyr ar gael i helpu i addurno'r goeden am 11 fore Sadwrn. Cytunodd y clerc i roi hysbyseb dwyieithog ar wefan y Cyngor Cymuned i apelio am wirfoddolwyr.

Taliadau i'w cymeradwyo:

- (1) **Cyflog y Clerc**
- (2) **HMRC** (bydd angen gwneud y taliad yma ar lein ar safle'r we HMRC)
- (3) **Ann Llwyd** – Cyfieithydd
- (4) Tanysgrifiad Zoom
- (5) Cabinet

Cytunwyd yn unfrydol o wneud y taliadau uchod.

Ceisiadau Cynllunio:

C23/0736/38/DT Glan y Mór, Glyn y Weddw, Llanbedrog

Estyniad ar yr ochr - fel nifer o dai eraill yn y lleoliad yma.

Dim gwrthwynebiad

C23/0649/38/DT Pen Llain, Llanbedrog

Nodwyd fod hwn yn ddatblygiad mawr a bod y lleoliad yn eithaf anghysbell

Dim gwrthwynebiad o ran y cynllun gwreiddiol, ond nodwyd pryderon am y defnydd o'r fath ofod yn y dyfodol ac o bosib newid deunydd o'r adeilad.

Unrhyw Fater Arall

Adroddodd Thomas Victor Jones fod yr Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd wedi bod yn Eisteddfod lwyddiannus iawn a bod y pentref yn edrych yn dda. Diolchodd i bawb fu'n brysur yn harddu a thacluso'r ardal. Adroddodd ymhellach fod nifer o drigolion y pentref wedi cael eu hurddo i'r orsedd yn yr Eisteddfod ac y byddai'n werth cofnodi hynny'n swyddogol yng nghofnodion y Cyngor Cymuned.

Dyma enwau'r rhai gafodd eu hurddo i'r orsedd:

Mared Gwyn, Awlefryn
Aled Hughes, Brynmor
Christine, (Glenville gynt) a
Catrin, Plas y Bryn

Ymddiheurodd Ian Goronwy Williams na fydd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod nesaf.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 31/01/24 am 7 yr hwyr.